Nodyn technegol

Prosiect:	Astudiaeth WelTAG Niwgwl	**At:**	Rob Morgan
Pwnc:	Asesiad Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr WelTAG	**Gan:**	Shelley Vince
Dyddiad:	10 Ionawr 2017	**cc:**	

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Atkins Limited at ddefnydd Cyngor Sir Penfro yn unig ac yn unigryw mewn ymateb i'w gyfarwyddiadau penodol. Ni dderbynnir atebolrwydd ar gyfer unrhyw gostau, hawliadau na cholledion sy'n deillio o ddefnyddio'r ddogfen hon, neu unrhyw ran ohoni, at unrhyw ddiben heblaw am yr hyn y cafodd ei llunio'n benodol ar ei gyfer neu gan unrhyw barti heblaw am Gyngor Sir Penfro.

D.S. Caiff y testun yn y Nodyn Technegol hwn ei gynnwys o fewn asesiad WelTAG amlddisgyblaeth cyn ei roi i'r cleient a bydd yn destun diwygio/adolygu.

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn darparu adolygiad rhagarweiniol o gydymffurfiaeth pedwar opsiwn arfaethedig sydd ar y rhestr fer ar gyfer cynllun ffordd newydd ger Niwgwl yn Sir Benfro â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (y Gyfarwyddeb). Mae'r adolygiad hwn yn rhan o arfarniad cam 1 WelTAG sy'n anelu at ddatrys problemau trafnidiaeth sy'n deillio o fethiannau ysbeidiol mewn perthynas â'r amddiffynfeydd arfordirol yn Niwgwl. Nid yw'n bosibl cynnal Asesiad Cydymffurfiaeth llawn â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ystod y cam hwn gan mai dim ond hyd at lefel strategaeth y datblygwyd yr opsiynau ar hyn o bryd. Felly, mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad rhagarweiniol lefel uchel o effeithiau posibl pob un o'r pedwar opsiwn ffordd sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r rhestr fer. Nodau'r ddogfen yw:

- Darparu gwybodaeth gefndir am y cynllun arfaethedig a deddfwriaeth y Gyfarwyddeb;
- Darparu dealltwriaeth sylfaenol o'r cyrff dŵr perthnasol o fewn cyd-destun y Gyfarwyddeb;
- Darparu asesiad lefel uchel o botensial pob un o'r opsiynau ffordd arfaethedig i leihau statws unrhyw gorff dŵr yr effeithir arno'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y cynllun o dan y Gyfarwyddeb;
- Darparu asesiad lefel uchel o'r effeithiau posibl ar fesurau i wella cyrff dŵr a'r gallu i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb.

2. Y Prosiect

2.1. Cefndir

Caiff yr A487 rhwng Hwlffordd a Thyddewi ei diogelu rhag y môr gan draethell sy'n cynnig amddiffynfa o safon isel iawn ac mae'r ffordd felly mewn perygl o lifogydd. Yn ystod misoedd y gaeaf, gall pentref Niwgwl gael ei ynysu gan raean bras a gaiff ei symud gan stormydd gan orchuddio'r ffordd.

Yn dilyn stormydd difrifol ym mis Ionawr a mis Chwefror 2014 lle cafodd y ffordd ei chau oherwydd llifogydd a rhwystrau sawl gwaith, comisiynodd Cyngor Sir Penfro (CSP) astudiaeth a gadarnhaodd mai lefel diogelwch 1:1 a ddarperir gan yr arglawdd presennol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, a heb ymgymryd â gwaith sylweddol o fewn 20 mlynedd, y gallai'r arglawdd fethu'n sylweddol yn fwyfwy rheolaidd, gan fygwth nid yn unig ddiogelwch trigolion lleol ond hefyd seilwaith trafnidiaeth Penrhyn Dewi. Er mwyn ymdrin â'r materion hyn, yn 2015 lluniodd CSP Adroddiad Cam Cynllunio o dan Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) er mwyn nodi opsiynau newydd posibl ar gyfer y ffordd.

Diben y gwaith presennol yw ymhelaethu ar Adroddiad Cam Cynllunio WelTAG drwy gynnal arfarniad Cam 1 WelTAG o'r opsiynau a nodwyd yn Adroddiad Cam Cynllunio WelTAG.


2.2. **Opsiynau'r Cynllun**

Nododd Adroddiad Cam Cynllunio WelTAG CSP ddeg opsiwn i'w hasesu ymhellach. Yn dilyn arfarniad cychwynnol o'r Ecoleg a'r Tirlun, lleihawyd nifer yr opsiynau i bedwar. Cadwyd yr opsiynau canlynol i'w hasesu ymhellach a dyma destun yr asesiad rhagarweiniol hwn o dan y Gyfarwyddeb:

- Opsiwn 3b - adlinio'r ffordd y tu ôl i ddau eiddo ar bont neu sarn traphont. Byddai'r ffordd newydd yn croesi Nant y Brandi fel traphont gan na fyddai sarn ar ffurf ceuffos yn addas oherwydd uchder (codiad) gofynnol y ffordd.
- Opsiwn 7 - Ffordd newydd ac uwchraddio'r ffordd bresennol. Yn rhannol ar ffordd a llwybr sy'n bodoli eisoes: ‘Pen-y-Cwm – Llethr – (Safle) Melin Breudeth’ – ffordd newydd, gan gynnwys croesi Nant y Brandi.
- Opsiwn 11 - uwchraddio'r llwybr gwyro presennol, a'i addasu er mwyn osgoi'r ysgol a man cul yn y lleoliad hwnnw. Byddai angen ehangu'r rhwydwaith ffyrdd presennol er mwyn gweithredu'r opsiwn hwn.
- Opsiwn J - Ffordd newydd drwy nentydd, cloddiau, perthi a ffermdir amaethyddol presennol.

Nodir y pedwar opsiwn ffordd hyn ar Ffigur 2-1. Ar hyn o bryd, gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am y dulliau a gâi eu defnyddio i adeiladu pob un o'r opsiynau hyn. Felly, mae'r asesiad rhagarweiniol hwn o dan y Gyfarwyddeb yn ymdrin ag amrywiaeth o opsiynau adeiladu posibl. Bydd angen cynnal asesiad cydymffurfiaeth pellach manylach o dan y Gyfarwyddeb unwaith y bydd yr opsiwn a ffefrir wedi'i nodi ac y bydd gwaith dylunio manylach wedi'i gwblhau.

Ffigur 2-1 Opsiynau ffordd ar gyfer Niwgwl



2.3. **Yr angen am y cynllun**

Caiff pentref Niwgwl yn Sir Benfro ei ddiogelu rhag y môr gan draethell fawr. Daeth dŵr y môr dros ben y draethell sawl gwaith yn y gorffennol, gyda graean bras yn cael ei olchi dros y brig ac i brif ffordd yr A487, gan arwain at gau'r ffordd ac, o dan amodau mwy difrifol, at lifogydd helaeth yn y dyffryn isel y tu ôl iddi. Bu pryder cynyddol ynghylch y bygythiad cynyddol i'r gefnen graean bras a goblygiadau hyn ar lefel strategol, o ran y rhwydwaith trafnidiaeth ac ar hyfywedd eiddo yn yr ardal yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, caiff y sefyllfa ei rheoli, fel y gwnaed dros yr 20 mlynedd diwethaf o leiaf, gan dderbyn y bydd dŵr y môr yn dod dros ben y gefnen graean bras o bryd i'w gilydd a phan fydd hyn yn digwydd, y caiff graean bras ei golli o frig y draethell gan greu rhwystr ar y ffordd. Mae'r Cyngor yn ymateb i ddigwyddiadau o'r fath a methiant y draethell drwy symud graean bras o'r ffordd a'r ardaloedd cefn gwlad cyfagos ac ailadeiladu'r brig i uchder a lled gofynnol gan gyfateb hynny cymaint â phosibl â'r proffil gwreiddiol. Mae'r dull gweithredu hwn yn ymdrin â'r broblem ar y pryd ond gan fod y draethell yn dod yn gynyddol ansefydlog a bod y bygythiad y bydd yn methu yn cynyddu wrth i lefel y môr gynyddu, rydym yn chwilio am ateb mwy cynaliadwy.

Nododd Cyngor Sir Penfro amrywiaeth o opsiynau posibl drwy broses WelTAG sydd bellach yn cael eu cyflwyno i'w harfarnu ymhellach er mwyn nodi'r ateb a ffefrir.

3. Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

3.1. Cefndir deddfwriaethol

Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000[1] yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff dŵr naturiol gyflawni statws cemegol da (SCD) a statws ecolegol da (SED). Mae'r Cynlluniau Rheoli Basn Afonydd yn amlinellu'r camau gweithredu sydd eu hangen er mwyn galluogi cyrff dŵr i gyflawni SED. Mae'n bosibl na fydd cyrff dŵr artiffisial na chyrff dŵr wedi'u haddasu'n sylweddol yn gallu cyflawni SCD a SED oherwydd yr addasiadau sydd eu hangen er mwyn cynnal eu swyddogaeth. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddynt gyflawni potensial ecolegol da (PED) a photensial cemegol da (PCD), drwy weithredu cyfres o fesurau lliniaru a amlinellir yn y Cynllun Rheoli Basn Afon perthnasol.

Gallai gweithgareddau a chynlluniau newydd o fewn yr amgylchedd dŵr gael effaith andwyol ar elfennau biolegol, hydromorffolegol, ffisegol-gemegol a/neu ansawdd cemegol (elfennau ansawdd y Gyfarwyddeb), gan arwain at leihau statws cyrff dŵr. Gallant hefyd olygu y bydd mesurau gwella arfaethedig yn aneffeithiol, gan arwain at fethiant y corff dŵr i gyflawni ei amcanion ar gyfer SED/PED o dan y Gyfarwyddeb. O dan y Gyfarwyddeb, ni ddylai gweithgareddau leihau statws y corff dŵr nac atal corff dŵr rhag cyflawni SED/PED drwy annilysu mesurau gwella.

Mae statws ecolegol cyffredinol corff dŵr yn seiliedig i raddau helaeth ar ystyried ei elfennau ansawdd biolegol a chaiff ei bennu drwy ddefnyddio'r sgôr isaf o'u plith. Fodd bynnag, caiff yr elfennau biolegol hyn, yn eu tro, eu hategu gan elfennau ansawdd ffisio-gemegol a hydromorffolegol. Nid yw'n benodol ofynnol asesu ansawdd hydromorffolegol er mwyn i gorff dŵr gyflawni statws ecolegol cymedrol neu is. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r nod cyffredinol o dan y Gyfarwyddeb, sef SED neu uwch, rhaid ystyried ansawdd hydromorffolegol fel rhan o'r asesiad dosbarthu.

Yn ogystal, er mwyn cyflawni nod cyffredinol SED o dan y Gyfarwyddeb, rhaid i gorff dŵr lwyddo mewn asesiad statws cemegol ar wahân, sy'n ymwneud â gwiriadau llwyddo/methu ar grynodiadau'r amrywiol sylweddau blaenoriaeth/peryglus a nodwyd.

Nodir crynodeb o gysyniadau allweddol y Gyfarwyddeb yn y blwch ar y dudalen ganlynol.

[1] Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Cyfarwyddeb 2000/60/EC), a weithredwyd yng Nghymru a Lloegr gan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (OS 3242/2003).

Amcanion y Gyfarwyddeb

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn Gyfarwyddeb Ewropeaidd sy'n nodi proses gynllunio strategol at ddiben rheoli, diogelu a gwella'r amgylchedd dŵr. Prif amcanion y Gyfarwyddeb yw:

- Atal dirywiad o ran statws ecosystemau dyfrol, eu diogelu a gwella cyflwr ecolegol dyfroedd;
- Anelu at gyflawni 'Statws Da' o leiaf ar gyfer pob corff dŵr erbyn 2015 (2021 neu 2027) lle y gellir cyfiawnhau hynny'n llawn o fewn terfyn amser estynedig o dan Erthygl 4.4;
- Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddŵr;
- Gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar ddŵr;
- Lleihau neu ddileu'n raddol achosion o ryddhau llygryddion unigol neu grwpiau o lygryddion sy'n peri bygythiad sylweddol i'r amgylchedd dyfrol;
- Lleihau'n raddol achosion o lygru dŵr daear ac atal neu gyfyngu'r llygryddion sy'n cael eu gollwng;
- Helpu i leihau sgil effeithiau llifogydd a chyfnodau o sychder.

Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r brif asiantaeth sy'n gweithredu ar ran y Llywodraeth i weithredu'r Gyfarwyddeb yn Lloegr ac mae eisoes yn monitro, yn rhoi cyngor ac yn rheoli sawl agwedd ar yr amgylchedd dŵr drwy reoleiddio gollyngiadau, echdyniadau a phrosesu caniatadau a thrwyddedau amgylcheddol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymrwymedig i roi gwelliannau amgylcheddol ar waith drwy leihau effeithiau ffisegol gweithgareddau adeiladu (o fewn cyrff dŵr artiffisial neu gyrff dŵr wedi'u haddasu'n sylweddol).

Dosbarthiad y Gyfarwyddeb

Caiff dosbarthiad y Gyfarwyddeb ar gyfer corff dŵr diffiniedig ei lunio drwy asesu amrywiaeth eang o wahanol 'elfennau' sy'n cynnwys y canlynol:

- *'elfennau biolegol'* megis pysgod, anifeiliaid di-asgwrn-cefn, ffytobenthos (sy'n cynnwys planhigion, macro-algae, ffytoplancton);
- *'elfennau ategol'* sy'n cynnwys mesuriadau cemegol megis amonia, ocsigen hydawdd, pH, ffosffad, copr, sinc a thymheredd;
- *'amodau ategol'* (y cyfeirir atynt weithiau fel hydromorffoleg) sy'n asesu priodweddau ffisegol y corff dŵr megis 'swm a dynameg y llif' a 'morffoleg'.

Caiff yr asesiad a wneir ar gyfer pob elfen ei ategu hefyd gan fesur o sicrwydd yn y canlyniad. Mae'r dosbarthiad statws a nodir ar Arsylwi Dyfroedd Cymru yn darparu amod sylfaenol y gellir mesur cydymffurfiaeth a gwelliannau yn y dyfodol yn ei herbyn.

Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb

Mae tri amcan allweddol y mae angen asesu effeithiau gwaith arfaethedig ar gorff dŵr yn eu herbyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag amcanion cyffredinol y Gyfarwyddeb:

- Amcan 1: Ni fydd y cynllun yn achosi dirywiad i unrhyw un o elfennau dosbarthiad y corff dŵr.
- Amcan 2: Ni fydd y cynllun yn atal y corff dŵr na chyrff dŵr eraill i lawr yr afon rhag cyflawni amcanion statws y Gyfarwyddeb.
- Amcan 3: Bydd y cynllun yn cyfrannu at gyflawni amcanion perthnasol y Gyfarwyddeb.

Rhaid cyflawni'r ddwy rwymedigaeth gyntaf er mwyn osgoi achos o dorri'r Gyfarwyddeb. Mae cyflawni'r trydydd amcan yn greiddiol o ran gallu Asiantaeth yr Amgylchedd i weithredu'r Gyfarwyddeb, lle y gellir ategu hynny drwy ei gweithgareddau gweithredol. Os ystyrir bod y cynllun yn debygol o achosi dirywiad o ran statws y corff dŵr neu atal corff dŵr rhag cyflawni ei amcanion ecolegol, yna câi asesiad ei gynnal yn erbyn yr amodau a restrir yn Erthygl 4.7 o'r Gyfarwyddeb. Gellir galw Erthygl 4.7 i rym o dan yr amgylchiadau canlynol; os bydd 'addasiadau newydd' o fudd sylweddol i'r cyhoedd a/neu os bydd buddiannau'r addasiadau newydd o ran iechyd pobl, diogelwch a datblygu cynaliadwy yn bwysicach na buddiannau amgylcheddol a chymdeithasol cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb; os nad oes unrhyw opsiynau amgylcheddol sylweddol well sy'n ddichonadwy yn dechnegol neu os nad oes costau cymesur yn gysylltiedig â'r opsiynau hynny; os cymerwyd pob cam lliniaru ymarferol.

Parhad drosodd……

Cyrff Dŵr Artiffisial neu Gyrff Dŵr wedi'u Haddasu'n Sylweddol

Ni all y cyrff dŵr hyn gyflawni SED gan eu bod wedi'u haddasu'n sylweddol, e.e. er mwyn rheoli perygl llifogydd neu fordwyaeth. Yn hytrach, mae'n ofynnol iddynt gyrraedd PED. Defnyddir presenoldeb neu ddiffyg rhestr benodedig o fesurau lliniaru fel dirprwy ar gyfer dangosyddion biolegol. Os rhoddwyd pob mesur lliniaru ar waith, pennir tag rhagarweiniol 'PED neu well' i'r corff dŵr. Mae statws cemegol da yn un o gynseiliau PED. Defnyddir 'cymedrol neu waeth' os oes rhai mesurau lliniaru heb eu rhoi ar waith eto. Felly, gall fod gan Gorff Dŵr wedi'i Addasu'n Sylweddol elfen y rhoddwyd statws 'gwael' iddi ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu y bydd ganddo statws cyffredinol 'gwael'.

Hydromorffoleg

Mae hydromorffoleg yn derm a ddefnyddir yn y Gyfarwyddeb i ddisgrifio'r prosesau sy'n gweithredu o fewn corff dŵr a ffurf ffisegol corff dŵr. Mae'r term yn cynnwys nodweddion hydrolegol a geomorffolegol sydd, gyda'i gilydd, yn helpu i gynnal ecoleg iach. Mae hydromorffoleg yn amod ategol onid yw corff dŵr wedi'i ddosbarthu'n gorff â statws ecolegol 'uchel'. Yn yr achosion hyn, mae elfennau hydromorffolegol yn cyfrannu at ddosbarthiad y statws.

Beth yw corff dŵr? (mewn perthynas â'r asesiad hwn)

Mae nodyn Canllaw Asiantaeth yr Amgylchedd 'Water bodies for the Water Framework Directive' (Asiantaeth yr Amgylchedd, Gorffennaf 2012) yn egluro bod y Gyfarwyddeb yn diffinio corff dŵr wyneb fel elfen arwahanol a sylweddol o ddŵr wyneb megis llyn neu gronfa ddŵr neu ffrwd, afon neu gamlas, aber neu ardal o ddŵr arfordirol gyfan (allan hyd at 1 filltir) (neu ran ohoni). Fe'u nodwyd yng Nghymru a Lloegr fel rhan o'r broses nodweddu. Mae'r canllaw hefyd yn egluro bod amcanion corff dŵr mewn afon yn berthnasol i bob rhan o'r corff dŵr o fewn dalgylch yr afon nid dim ond y rhwydwaith cofnodedig fel y'i dangosir ar system 'What's in Your Backyard' Asiantaeth yr Amgylchedd.

3.2. Diben yr adroddiad a dull asesu'r Gyfarwyddeb

Mae'r ddogfen hon yn darparu asesiad rhagarweiniol o dan y Gyfarwyddeb ac yn cynnwys trosolwg cryno, proses o sgrinio cyrff dŵr, asesiad elfennau ansawdd rhagarweiniol lefel uchel, asesiad rhagarweiniol o fesurau gwella cyrff dŵr a'r gallu i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb. Bydd yr asesiad yn ystyried hydromorffoleg, ecoleg ddyfrol, ansawdd dŵr a dŵr daear.

4. Sgrinio Cyrff Dŵr

Mae'r gwaith arfaethedig yn rhan o Ddosbarth Basn Afonydd Gorllewin Cymru o fewn Dalgylch Rheoli Cleddau ac Afonydd Arfordir Sir Benfro.

Cyrff dŵr afonydd

Mae pob un o'r pedwar opsiwn sy'n rhan o'r cynllun yn croesi corff dŵr afon Nant y Brandi - blaenddyfroedd i'r terfyn llanw (GB110061031160) a gallai achosi newidiadau a allai effeithio ar y corff dŵr hwn. Caiff y corff dŵr hwn ei gynnwys i'w asesu ymhellach.

Cyrff dŵr daear

Mae'r gwaith arfaethedig yn mynd dros ben corff dŵr daear Cleddau a Sir Benfro (GB41002G200400). Mae'r opsiynau ffordd arfaethedig yn mynd dros ben Cystradau Glo sy'n cynnwys strata tywodfaen, sy'n ddyfrhaenau posibl. Gallai fod angen ymgymryd â gwaith daear sylweddol fel rhan o opsiwn 3b megis cloddio a phentyrru er mwyn creu'r draphont a allai ryngweithio'n ffisegol â dŵr daear. Mae'n bosibl y gallai fod angen torri i mewn i'r ddaear er mwyn creu sylfeini strwythurol fel rhan o opsiwn 7 ac opsiwn J sy'n cynnwys adeiladu ffordd newydd, a allai ryngweithio â dŵr daear. Bydd y pedwar opsiwn ffordd yn croesi Nant y Brandi a bydd angen adeiladu ceuffos neu bont. Gallai sylfeini'r bont/ceuffos hon ryngweithio â dŵr daear. Cynhwyswyd y pedwar opsiwn hyn sy'n rhan o'r cynllun i'w hasesu ymhellach mewn perthynas â chorff dŵr Cleddau a Sir Benfro.

Cyrff dŵr trosiannol

Nid oes unrhyw gyrff dŵr trosiannol yng nghyffiniau'r cynllun arfaethedig. Ni chynhwyswyd unrhyw gyrff dŵr trosiannol.

Cyrff dŵr arfordirol

Mae Nant y Brandi yn bwydo i gorff dŵr arfordirol De Sir Benfro (GB611008590003). Bydd gweithredu'r cynllun a ddewisir yn galluogi tir blaen arfordirol Niwgwl i symud i gyfeiriad mewndirol a allai effeithio ar y corff dŵr hwn. Cynhwyswyd corff dŵr De Sir Benfro i'w asesu ymhellach ar gyfer pob opsiwn sy'n rhan o'r cynllun.

5. Gwybodaeth sylfaenol am gyrff dŵr

Nodir manylion y cyrff dŵr a gynhwyswyd yn yr asesiad hwn yn Tabl 5-1 a darperir nodweddion y cyrff dŵr hyn yn Tabl 5-2

Tabl 5-1 Cyrff dŵr y Gyfarwyddeb a gynhwyswyd yn yr asesiad

Enw	Cyfeirnod adnabod	Math
Nant y Brandi - blaenddyfroedd i'r terfyn llanw	GB110061031160	Afon
De Sir Benfro	GB611008590003	Arfordirol
Cleddau a Sir Benfro	GB41002G200400	Dŵr daear

Cyrchwyd y data o wefan Arsylwi Dyfroedd Cymru (http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/)

Tabl 5-2 Nodweddion Cyrff Dŵr

Nodweddion	Statws 2015 Nant y Brandi	Statws 2015 De Sir Benfro	Statws 2015 Cleddau a Sir Benfro
Cyfeirnod adnabod y corff dŵr	GB110061031160	GB611008590003	GB41002G200400
Dynodiad hydromorffolegol	Nis dynodwyd	Nis dynodwyd	dd/g
Statws/potensial cyffredinol cyfredol y corff dŵr	Cymedrol	Da	Gwael
Statws/potensial ecolegol	Cymedrol	Da	dd/g
Statws/potensial cemegol	Da	Da	Gwael
Statws meintiol (ar gyfer dyfroedd daear)	dd/g	dd/g	Da
Rheswm dros beidio â chyflawni statws da	Ffosffad	dim	Statws corff dŵr wyneb yn dibynnu ar gemegau
Amcan Statws yn y Dyfodol	Da erbyn 2021	Da erbyn 2015	Da erbyn 2021
Dynodiad ardal warchodedig	-	ACA, AGA, Dŵr ymdrochi	Ardal dŵr yfed warchodedig, ACA

Cyrchwyd y data o Arsylwi Dyfroedd Cymru, data a lawrlwythwyd o'r Gyfarwyddeb

5.1. Pwysau ar Ddalgylchoedd

Mae crynodeb dalgylch rheoli Cleddau ac afonydd arfordirol Sir Benfro[2] yn nodi bod y prif heriau sy'n gysylltiedig â pheidio â chyflawni statws da o ran dyfroedd wyneb yn y dalgylch fel a ganlyn:

- Asesu mesurau lliniaru
- Addasiadau ffisegol
- Llygredd o garthion a dŵr gwastraff
- Llygredd o ardaloedd gwledig
- Anhysbys (yn aros ymchwiliad)
- Arall

Mae ymchwiliadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu bod Nant y Brandi yn debygol o fod yn methu â chyflawni statws da oherwydd gollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff.

5.2. Mesurau Cenedlaethol

Mae'r rhaglen o fesurau ar gyfer cyflawni canlyniadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru erbyn 2021 yn cynnwys is-set o Fesurau Cenedlaethol[3]. Mae'r mesurau cenedlaethol yn berthnasol i Gymru gyfan, neu i'r Deyrnas Unedig. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn nodi'r dull gweithredu o ran deddfwriaeth, polisi neu strategaeth. Rhestrir y rhai a allai fod yn berthnasol i'r gwaith yn Tabl 5-3 isod.

Tabl 5-3 Mesurau cenedlaethol y Gyfarwyddeb sy'n berthnasol i'r asesiad hwn

Cyfeirnod adnabod y mesur	Disgrifiad
CYM10	Nodi cyfleoedd i wella'r amgylchedd dŵr drwy raglenni gwaith a dyluniadau ar gyfer cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd sy'n bodoli eisoes
CYM22	Hyrwyddo ymdrechion i weithredu systemau draenio cynaliadwy (SDCau) mewn datblygiadau newydd a datblygiadau sy'n bodoli eisoes, mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig er mwyn creu buddiannau amgylcheddol, buddiannau o ran ansawdd dŵr, buddiannau cymdeithasol a buddiannau o ran perygl llifogydd
WW0146	Gweithredu'r Cod Ymarfer ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (SDCau). Cydymffurfio â chyngor cyhoeddedig ar gyfer gweithredwyr ar systemau draenio cynaliadwy.

5.3. Mesurau lleol perthnasol

Mae'r brif raglen o fesurau ar gyfer cyflawni canlyniadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr erbyn 2021 yn cynnwys Mesurau Lleol. Mae mesurau lleol yn benodol i ddosbarth basn yr afon neu ran ohono. (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016). Nid oes unrhyw fesurau wedi'u pennu'n benodol i unrhyw un o'r cyrff dŵr a gynhwyswyd yn yr asesiad hwn. Fodd bynnag, mae mesur sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr ymchwilio i'w cyfraniad at atal cyrff dŵr rhag cyflawni statws da ac mae hyn yn berthnasol i gorff dŵr Nant y Brandi (GB110061031160).

6. Asesiad Rhagarweiniol

Mae'r adran hon yn darparu asesiad rhagarweiniol o b'un a yw'r gwaith arfaethedig yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yn seiliedig ar dri phrawf allweddol:

- Prawf 1: ni fydd y cynllun yn achosi dirywiad i unrhyw un o elfennau dosbarthiad y corff dŵr.

[2] Crynodeb Dalgylch Rheoli Cleddau ac Afonydd Arfordirol Sir Benfro, Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016

[3] Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016. Arsylwi Dyfroedd Cymru. [ar-lein] Ar gael yn: waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/

- Prawf 2: ni fydd y cynllun yn atal y corff dŵr na chyrff dŵr eraill i lawr yr afon rhag cyflawni amcanion statws y Gyfarwyddeb
- Prawf 3: Ni fydd y cynllun yn atal gwelliannau rhag cael eu cyflawni yn y dyfodol.

Cymhwyswyd y tri phrawf hyn i'r tri chorff dŵr a gynhwyswyd ar gyfer pob un o'r opsiynau sy'n cael eu hystyried o dan y cynllun. Bydd pob un o'r opsiynau o dan y cynllun yn gofyn am addasiadau hirdymor i'r amgylchedd ac felly aseswyd effeithiau sy'n deillio o'r gwaith adeiladu ac effeithiau etifeddol y cynllun.

Bydd yr effeithiau sy'n deillio o'r gwaith adeiladu yn dibynnu ar yr arferion adeiladu a ddefnyddir i gyflwyno'r cynllun. Bydd llwybrau effaith sy'n deillio o'r dulliau adeiladu yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys hyd y gwaith, dulliau gweithio, y gofyniad i weithio yn yr afon ac amseru'r gwaith. Mae'r asesiad hwn yn tybio y caiff y risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu eu lliniaru'n llawn gan brosesau addas ar gyfer rheoli arferion adeiladu, megis cydymffurfio â Chanllawiau Atal Llygredd Asiantaeth yr Amgylchedd sydd, er nad ydynt yn cael eu defnyddio'n swyddogol fel canllawiau mwyach, yn cyfleu arfer da ac yn cynnwys rhai o'r canllawiau atal llygredd mwyaf defnyddiol sydd ar gael o hyd.

Bydd effeithiau etifeddol y cynllun yn dibynnu ar y dyluniad a ddewisir ar gyfer elfennau allweddol megis croesi Nant y Brandi a pheirianneg y bont/traphont. Ni phennwyd manylion y seilwaith hwn eto. Bydd llwybrau effaith etifeddol y cynllun yn dibynnu ar ffactorau gan gynnwys lleoliad a maint yr addasiadau i'r amgylchedd. Mae'r asesiad hwn yn tybio y caiff y risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig ag effeithiau etifeddol y cynllun eu lliniaru drwy gydymffurfio â safonau perthnasol, gan gynnwys y Safonau Priffyrdd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i systemau draenio ddarparu rhywfaint o reolaeth dros y risg y caiff y cwrs dŵr sy'n derbyn ei lygru neu y ceir llifogydd rywle arall yn y dalgylch.
Mae HD45/09 (Design Manual for Roads and Bridges (DMRB)) yn ei gwneud yn ofynnol i sicrhau na fydd gollyngiadau o ffyrdd yn arwain at ddirywiad yn statws dosbarthiad y dyfroedd sy'n derbyn y gollyngiadau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000/60/EC. Mae HD 45/09 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ffyrdd barhau'n ddiogel ac yn weithredol adeg llifogydd, i sicrhau na chaiff unrhyw dir storio ar orlifdiroedd ei golli, i sicrhau na chaiff llifoedd dŵr eu hatal ac na chaiff y perygl llifogydd ei gynyddu mewn mannau eraill. Nodir manylion systemau ar gyfer rheoli llifogydd neu lygredd yn HA 33/06 (DMRB):

- Rheoli gollyngiadau: Gwahanwyr Olew, Ffosydd wedi'u Leinio, Llifddorau, Bafflau, Ymylon a Gylïau, Sianelau Dŵr Wyneb, Draeniau Hidlo;
- Dulliau eraill o reoli llygredd: Draeniau Hidlo, Ffosydd heb eu Leinio, Gwahanwyr Olew, Maglau Gwaddod;
- Rheoli'r llif: Draeniau Hidlo, Draeniau cludo (gorfaint), Ffosydd, Ymylon a Draeniau Cyfun, Palmentydd Athraidd;
- Systemau â llystyfiant: Pyllau, Basnau ymdreiddio, Gwlyptiroedd, Sianelau glaswelltog, Traethbantau, atalwyr olew neu faglau llygredd i'w cynnwys mewn ardaloedd risg uchel megis y cylchfannau.

6.1. Prawf 1 – Dirywiad elfennau

Nodir canlyniadau Prawf 1, sef yr asesiad o'r tebygolrwydd y bydd elfennau yn dirywio, yn Tabl 6-1 ar gyfer corff dŵr afon Nant y Brandi, Tabl 6-2 ar gyfer corff dŵr arfordirol De Sir Benfro a Tabl 6-3 ar gyfer corff dŵr daear Cleddau a Sir Benfro.

Mae'r asesiad rhagarweiniol o Brawf 1 (dirywiad elfennau) yn nodi y gallai pob un o'r opsiynau o dan y cynllun achosi dirywiad yn elfennau hydromorffolegol corff dŵr Nant y Brandi oherwydd gwaith i groesi'r afon. Rhoddwyd asesiad rhagofalol yn nodi 'rhagwelir effeithiau posibl' gan nad oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd am y fethodoleg adeiladu. Unwaith y caiff yr opsiwn a ffefrir ei nodi ac y bydd mwy o fanylion yn hysbys am ddyluniad y cynllun, dylid ailystyried yr asesiad hwn.

Mae'r asesiad hefyd yn nodi y gallai pob un o'r opsiynau o dan y cynllun achosi dirywiad yn elfennau hydromorffolegol a biolegol corff dŵr arfordirol De Sir Benfro yn yr hirdymor unwaith y bydd y draethell yn methu o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr. Rhoddwyd asesiad rhagofalol yn nodi 'rhagwelir effeithiau posibl' gan nad oes gwybodaeth ar gael am sut y bydd y broses hon yn digwydd a ph'un a ganiateir i'r môr orlifo'r arfordir yn naturiol neu a fyddai unrhyw strwythur caled yn cael ei godi er mwyn diogelu rhai asedau penodol. Unwaith y caiff yr opsiwn a ffefrir ei nodi ac y bydd mwy o fanylion yn hysbys am ddyluniad y cynllun ac esblygiad yr arfordir yn y dyfodol, dylid ailystyried yr asesiad hwn.

Mae'r asesiad yn nodi y gallai pob un o'r opsiynau o dan y cynllun achosi dirywiad i gorff dŵr daear Cleddau a Sir Benfro. Mae'r asesiad hwn yn tybio y gall fod angen ymgymryd â gwaith sylweddol i dorri i mewn i'r ddaear neu bentyrru a allai effeithio ar y corff dŵr daear fel rhan o bob un o'r opsiynau hyn. Nid yw'r methodolegau adeiladu ar gyfer pob un o'r opsiynau hyn yn hysbys eto felly rhagwelwyd effeithiau posibl ar

sail ragofalol. Dylid ailystyried yr asesiad hwn unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael am y methodolegau adeiladu.

Tabl 6-1 Prawf 1 – Y potensial ar gyfer dirywiad elfennau yng nghorff dŵr afon Nant y Brandi

	Opsiwn o dan y Cynllun			
Elfennau ansawdd y Gyfarwyddeb	**Opsiwn 3b - adlinio'r ffordd ar bont neu sarn traphont.**	**Opsiwn 7 - Ffordd newydd ac uwchraddio'r ffordd bresennol**	**Opsiwn 11 - uwchraddio'r llwybr gwyro presennol**	**Opsiwn J - Ffordd newydd**
Elfennau hydromorffolegol • Patrymedd hydrolegol • Amodau morffolegol • Parhad yr afon • Patrymedd y llanw	*Rhagwelir effaith bosibl* Gan ddibynnu ar strwythur y bont a ddewisir i groesi'r afon, mae'n bosibl y bydd newidiadau i'r amodau morffolegol a'r llif dŵr croyw. Bydd angen penderfynu ar eu harwyddocâd unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael am ddyluniad y cynllun. Nid yw patrymedd y llanw yn berthnasol.	*Rhagwelir effaith bosibl* Gan ddibynnu ar y strwythur a ddewisir i groesi'r afon, mae'n bosibl y bydd newidiadau i'r amodau morffolegol a'r llif dŵr croyw. Bydd angen penderfynu ar eu harwyddocâd unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael am ddyluniad y cynllun. Nid yw patrymedd y llanw yn berthnasol.	*Rhagwelir effaith bosibl* Gan ddibynnu ar y strwythur a ddewisir i groesi'r afon, mae'n bosibl y bydd newidiadau i'r amodau morffolegol a'r llif dŵr croyw. Bydd angen penderfynu ar eu harwyddocâd unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael am ddyluniad y cynllun. Nid yw patrymedd y llanw yn berthnasol.	*Rhagwelir effaith bosibl* Gan ddibynnu ar y strwythur a ddewisir i groesi'r afon, mae'n bosibl y bydd newidiadau i'r amodau morffolegol a'r llif dŵr croyw. Bydd angen penderfynu ar eu harwyddocâd unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael am ddyluniad y cynllun. Nid yw patrymedd y llanw yn berthnasol.
Elfennau biolegol • Ffytoplancton • Macroffytau a ffytobenthos • Fflora dyfrol • Anifeiliaid di-asgwrn-cefn benthig	*Ni ragwelir unrhyw effaith* Gallai'r potensial y caiff gwaddod ei symud wrth adeiladu'r bont achosi diraddiad mewn ffytoplancton drwy gael sgil effaith ar gyfansoddiad rhywogaethau. Gallai hyn hefyd arwain at flymau ffytoplancton. Gallai plu gwaddod hefyd	*Ni ragwelir unrhyw effaith* Gallai'r potensial y caiff gwaddod ei symud wrth adeiladu'r bont/ceuffos achosi diraddiad mewn ffytoplancton drwy gael sgil effaith ar gyfansoddiad rhywogaethau. Gallai hyn hefyd arwain at flymau ffytoplancton. Gallai plu	*Ni ragwelir unrhyw effaith* Gallai'r potensial y caiff gwaddod ei symud wrth adeiladu'r bont/ceuffos achosi diraddiad mewn ffytoplancton drwy gael sgil effaith ar gyfansoddiad rhywogaethau. Gallai hyn hefyd arwain at flymau ffytoplancton. Gallai plu	*Ni ragwelir unrhyw effaith* Gallai'r potensial y caiff gwaddod ei symud wrth adeiladu'r bont/ceuffos achosi diraddiad mewn ffytoplancton drwy gael sgil effaith ar gyfansoddiad rhywogaethau. Gallai hyn hefyd arwain at flymau ffytoplancton. Gallai plu

